# CYNGOR CYMUNED PENTIR

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD yn Rhithiol ar yr 13/05/2021**

**Presennol:**
Y Cyng.   M Lynch, Eleri Jones, L. A. James, J. Griffiths, B Jones, M Baines, J Pierce a D W Jones.
Elwyn Jones  (Clerc )

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, J. Lewis, D Jones-Morris, H Griffiths a T Anwyl-Williams

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Cyng D W Jones i'r cyfarfod rhithiol cyn iddo draddodwyd Gweddi.

Yn ei sylwadau agoriadol cyfeiriodd mae hwn oedd ein ail gyfarfod Blynyddol Rhithiol ond o leiaf 'roedd hwn yn ei amser ar ddechrau mis Mai.

**1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020 a materion yn codi.**
Derbyn Cofnodion
Ar gynnig Cyng J. Pierce gafodd ei eilio gan Cyng E Jones derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2020 - 21**
Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2020 - 21 ynghyd a'r adroddiad ariannol, fydd yn eu tro yn cael eu anfon at yr Archwilwyr Mewnnol ag Allannol a chymedwywyd y Cadeirydd i'w arwyddo
'Roedd y ddwy ddogfen wedi eu anfon yn electronig at bod aelod

**3. Adroddiad y Cadeirydd**
Cyfeiriodd y Cadeirydd mae blwyddyn gyfyngedig iawn oedd 2020-21 wedi bod oherwydd y cyfyngiadau Covid ond serch hynny fod prosiectau wedi mynd ymlaen er gwaetha popeth. Y ddau brosiect mwyaf o bosib oedd Prosiect Canolfan newydd Penrhosgarnedd fydd ar safle newydd wrth ochr ysgol y Faenol yn hytrach nag yn sefyll ar ei phen ei hun.
Bydd yr adeliad presennol yn cael ei ddymchwel i greu maes parcio ar gyfer defnyddwyr yr ysgol a'r ganolfan newydd. Mae'r rhan ar gyfer y Neuadd newydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan yr Ysgol hyd nes bydd eu dosbarthiadau newydd nhw yn barod.
Rhagwelir bydd hynny yn digwydd tuag at ddiwedd 2021
Mae yr ail brosiect mawr ynglwm a Chanolfan Glasinfryn a chysylltu y Ganolfan honno a'r sustem garffosiaeth gyhoeddus a'i datgysylltu o'r septic tanc. Mae problemau wedi codi yn sgil hynny oherwydd diffyg gallu adnabod perchennog swyddogol i'r trac sy'n arwain tuag at y maes-parcio.
Yn ogystal cafodd yr holl gysgodfannau bws eu glanhau a'u di-heintio cafwyd contractwr arall i ymgymeryd a'n bocsus blodau a prynwyd 3 diffib arall i wneud cyfanswm bellach o 8 peiriant ledled yr ardal.
Cyfetholwyd Cyng John Lewis atom i Ward Glasinfryn
Ar nodyn llai positif daeth llawer iawn o gwynion ynglyn ag ymddygiad bygythiol perchennog hen Ysgol Glan-Menai wrth iddynt gerdded y ffordd heibio'r hen ysgol – ffordd mae rhai wedi ei cherdded ers degawdau; ag eraill yn cerdded mwy oherwydd y gwaharddiadau yn sgil Covid.
Mae galw mawr bellach i gyd-weithio efo Adran Tramwyo Cyngor Gwynedd i sicrhau cyfreithloni hawl tramwyo'r ffordd yma.
Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth a diolchodd yn arbennig i'r Clerc am ei waith.

**4. Ethol Swyddogion**
Cytunodd y Cyng D W Jones i gario ymlaen fel Cadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod yn ogystal a chymell eraill i ystyried ymgymeryd a'r swyddogaeth yn y dyfodol.
Cynnigwyd – eilwyd a derbyniodd Cyng M Lynch yr Is-gadeiryddiaeth.
<u>4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau</u>

Cytuniwyd i aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid aros fel ag y mae sef Cyng Lowri James (Cad) Cyng Dewi W Jones, Cyng Dafydd Jones-Morris Cyng Jean Pierce a'r Cyng Bernard Jones.

Bydd Is-Gadeirydd y cyngor a'r hawl i fynychu yr Is-Bwyllgor.

Cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor i sefydlu Cynllun busnes dros gyfnod o rhyw dair blynedd gan roi hwnnw ar agenda Mis Mehefin

Daeth y Cyfarfod  Blynyddol i ben am 7.30

***********************************